Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ymatebion i'r ymgynghoriad ar flwyddyn bontio arfaethedig Estyn yn 2020–2021 (blwyddyn academaidd)

# Ymatebion i'r ymgynghoriad ar flwyddyn bontio arfaethedig Estyn yn 2020–2021 (blwyddyn academaidd)

## 1 Cyflwyniad

Yn ystod haf 2019, cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus ar ein blwyddyn bontio arfaethedig yn 2020–2021 (blwyddyn academaidd). Defnyddir canlyniadau'r ymgynghoriad i helpu cynllunio'n gweithgareddau yn ystod y flwyddyn bontio arfaethedig.

## 2 Methodoleg

Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf holiadur a oedd ar gael i'w lenwi naill ai ar-lein neu all-lein – sef dogfen Word i'w llenwi a'i dychwelyd drwy'r e-bost neu'r post. Lansiom yr arolwg ar 21 Mai 2019 a daeth i ben ar 28 Mehefin 2019.

## 3 Proffil ymatebwyr yr ymgynghoriad


Cawsom 560 o ymatebion i'r ymgynghoriad.[1] Daeth 88% o ymatebion gan weithwyr addysg proffesiynol, 4% gan rieni/gofalwyr, 4% gan 'arall', 2% gan aelodau o'r cyhoedd ac 1% gan ddysgwyr. O'r ymatebwyr a ddewisodd 'Arall', y grŵp a enwyd amlaf oedd llywodraethwyr ysgol. Roedd 20% o'r ymatebion drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 4 Canlyniadau

### 4.1 Gwaith arolygu

Yn gyntaf, gofynnom p'un a oedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i atal arholiadau yn rhannol ar gyfer ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) yn ystod y flwyddyn bontio. Roedd 89% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig ac roedd 7% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

**Ffigur 1: A ydych yn cytuno y dylem atal arolygiadau yn rhannol ar gyfer ysgolion ac UCDau yn ystod y flwyddyn academaidd 2020–2021 fel bod arolygwyr yn cefnogi diwygio'r cwricwlwm?**




Yna, gofynnom a oedd ganddynt unrhyw sylwadau o ran pa waith arolygu ddylai barhau, os o gwbl, yn ystod y flwyddyn bontio. Nododd rhai gweithwyr addysg proffesiynol y dylai arolygiadau barhau ym mhob ysgol, yn enwedig mewn UCDau, a mynegont bryderon am effaith niweidiol bosibl atal arolygiadau ar safonau ac ar ddiogelwch plant. Ffocysau a awgrymwyd ar gyfer arolygu yn ystod y cyfnod hwn oedd paratoi ar gyfer diwygio ADY,

[1] Cafwyd ugain ymateb ychwanegol drwy'r e-bost. Oherwydd problemau technegol a achosodd i'r ymatebion hyn gyrraedd yn hwyr, ni chafodd yr ymatebion hyn eu cynnwys yn y dadansoddiad ystadegol ond fe'u cynhwyswyd yn y dadansoddiad ansoddol.


hunanwerthuso gan ysgolion, iechyd a lles, gwirio cymwysterau staff addysgu, dilysu gwaith mewn ysgolion arloesi, ac arweinyddiaeth. Neges gyson oedd y dylai AEM arsylwi bywyd o ddydd i ddydd mewn ysgolion. Fe wnaeth gweithwyr addysg proffesiynol eraill ddadlau y byddai ar ysgolion angen amser a llonydd i roi'r diwygiadau i'r cwricwlwm ar waith a dadleuont o blaid cyfnod pontio hwy. Yn gyffredinol, cafwyd cytundeb y dylid parhau ag arolygiadau ar gyfer ysgolion mewn categorïau gweithgarwch dilynol, ysgolion sy'n destun pryder ac ysgolion sydd mewn trafferthion, ac i ddarparwyr nad ydynt yn rhan o ddiwygio'r cwricwlwm. Roedd yr angen am arolygiadau thematig yn neges allweddol arall gan weithwyr addysg proffesiynol, yn enwedig y rhai â ffocws ar agweddau ar y cwricwlwm newydd.

Teimlai llawer o rieni ac aelodau'r cyhoedd y dylai pob arolygiad barhau. Roedd yr angen i arolygu ysgolion mewn trafferthion ac ysgolion mewn mesurau arbennig yn neges gref unwaith eto. Fe wnaeth rhai llywodraethwyr ddadlau y dylai arolygiadau barhau mewn lleoliadau annibynnol ac, eto, nodont y dylai arolygu barhau mewn ysgolion mewn trafferthion. Fe wnaeth rhai ymatebwyr 'arall' ddadlau y dylid atal pob arolygiad.

## 4.2 Ymweliadau Ymgysylltu

Nesaf, fe wnaethom baratoi datganiad yn disgrifio ymweliadau ymgysylltu a gofynnom i ymatebwyr a oedd y wybodaeth yn disgrifio pwrpas yr ymweliadau. Roedd dros 80% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y wybodaeth yn esbonio pwrpas yr ymweliadau. Dim ond ychydig bach iawn a wnaeth anghytuno neu anghytuno'n gryf.


**Ffigur 2: A ydych chi'n cytuno bod y wybodaeth uchod yn esbonio pwrpas yr ymweliadau ymgysylltu?**




### *4.2.1 Blaenoriaethau*

Gofynnom i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno â rhestr o dair blaenoriaeth ar gyfer ymweliadau ymgysylltu. Fe wnaeth yr ymatebwyr gytuno neu gytuno'n gryf (dros 80%) y dylai'r cwricwlwm newydd, newidiadau i'r cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, a gwella ysgolion drwy hunanwerthuso, oll fod yn flaenoriaethau.

**Ffigur 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau hyn?**




Yna, gofynnom i'r ymatebwyr am y pethau eraill y dylem fod yn eu hystyried yn ystod ymweliadau ymgysylltu. Neges gref gan weithwyr addysg proffesiynol oedd y dylai ymweliadau gynnig cyngor, arweiniad a gwybodaeth i ysgolion i'w helpu i roi'r cwricwlwm newydd ar waith, annog deialog agored a helpu i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth. Neges gref arall oedd pwysigrwydd hyfforddi AEM i weithredu'n gyson mewn ymweliadau a gwybod y diweddaraf am ddiwygio'r cwricwlwm. Dywedodd ymatebwyr wrthym y dylem fod yn cyfleu ein disgwyliadau ynghylch ymweliadau i ysgolion ac yn pwysleisio nad arolygiadau yw'r ymweliadau.

Neges allweddol arall oedd y dylem roi amser i ysgolion arbrofi. Fe wnaeth ymatebwyr ddadlau y byddai hyn yn rhoi llai o bwysau ar ysgolion, a fyddai'n treulio amser fel arall ar baratoi ar gyfer ymweliadau. Cwestiynau mynych oedd faint o wybodaeth y gellid ei chasglu mewn diwrnod a ph'un a oes gennym ddigon o adnoddau i ymweld â phob ysgol mewn blwyddyn.

Awgrym cryf gan weithwyr addysg proffesiynol oedd y dylem fod yn ystyried lles a baich gwaith staff, yn ogystal â lles dysgwyr, fel themâu allweddol yn ystod yr ymweliadau. Thema allweddol arall oedd gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu rhwng ysgolion. Ystyriaethau pwysig eraill yn ôl y garfan hon oedd cyllid ysgolion a staffio, Dysgu Proffesiynol, diogelu, ADY, a dysgu ac addysgu. Negeseuon cyson eraill oedd yr angen i ystyried cymorth i staff cyflenwi, cymorth gan ALlau/consortia rhanbarthol, materion staffio, ymgysylltiad ysgolion â'r gymuned, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a defnydd ysgolion o'r Grant Datblygu Disgyblion.


Fe wnaeth rhai gweithwyr addysg proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd ddadlau mai Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol ddylai fod yn cefnogi ysgolion. Dadleuodd rhai rhieni y dylem ni fod yn ystyried lefel y cymorth gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol. Awgrymodd dysgwyr y dylai baich gwaith athrawon gael ei ystyried yn ystod ymweliadau ymgysylltu. Dadleuodd llywodraethwyr a rhieni fod angen gwrando ar farn rhieni. Roedd ystyriaethau eraill a awgrymwyd gan rieni yn cynnwys polisïau bwlio,

cyfleusterau'r ysgol a lles.  Awgrymodd ymatebwyr eraill ystyried cymorth i athrawon, materion staffio, gan gynnwys defnyddio cynorthwywyr addysgu yn hytrach nag athrawon, cyllid ysgolion, addysg gyrfaoedd a Dysgu Proffesiynol.

### *4.2.2 Adborth*

Yna, gofynnom p'un a oedd ymatebwyr yn cytuno na ddylem ni ddarparu adborth ysgrifenedig yn dilyn ymweliad ymgysylltu.  Roedd 63% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig hwn.  Roedd 23% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno.

**Ffigur 4: A ydych chi'n cytuno NA ddylem ni ddarparu adborth ysgrifenedig yn dilyn ymweliad?**




Cafwyd barn gymysg gan weithwyr addysg proffesiynol am ddarparu adborth.  Fe wnaeth rhai ddadlau y byddai peidio â darparu adborth ysgrifenedig yn helpu i bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng ymweliadau ymgysylltu ac arolygiadau, ac y byddai'n annog ysgolion i fod yn fwy agored a gonest, heb ofn.  Teimlai eraill y dylai ysgolion gael adborth o ryw fath, gan gynnwys adborth llafar i'r holl staff.  Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr hefyd y gallai adborth llafar gael ei gamddehongli.  Roedd y rhai o blaid adborth ysgrifenedig yn dadlau y byddai'n rhoi sylfaen ddefnyddiol i ysgolion gamu ymlaen ohono a myfyrio arno.  Dylai hwn fod at ddefnydd mewnol yn unig a heb ei gyhoeddi.  Thema allweddol oedd nad oedd angen o reidrwydd i adborth ysgrifenedig fod yn adroddiad ffurfiol, ond y gallai fod yn grynodeb o brif bwyntiau neu gofnodion trafodaethau.  Neges gref arall oedd yr angen am gynllun gweithredu, yn amlinellu meysydd i'w datblygu ac yn gwneud argymhellion.  Roedd yr angen am ddeialog broffesiynol, agored yn neges bwysig arall.  Teimlai ymatebwyr yn gryf y dylai adborth fod yn gefnogol, yn adeiladol ac y dylai annog, nid barnu.  Hefyd, dadleuodd ymatebwyr y dylai adborth ganolbwyntio ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Nododd rhai aelodau o'r cyhoedd y dylai adborth gael ei gyhoeddi a bod ar gael yn agored, tra nododd llywodraethwyr fod darparu adborth yn rhan allweddol o'n rôl.  Nododd rhieni nad oedd materion a godwyd gennym mewn trafodaeth, yn wahanol i adroddiad, yn gallu cael eu rhannu gyda nhw yn yr un ffordd.

### *4.2.3 Sylwadau ychwanegol*


Gofynnom p'un a oedd gan ymatebwyr unrhyw sylwadau ychwanegol am ymweliadau ymgysylltu.  Neges gref gan weithwyr addysg proffesiynol oedd y dylai ymweliadau beidio â bod yn rhai oedd â llawer yn y fantol ac na ddylent roi pwysau ar ysgolion.  Thema gref arall oedd yr angen i agweddau AEM fod yn gyson ac y dylem fod yn dryloyw am bwrpas yr ymweliadau, gan gyfleu yn benodol na fyddent yn effeithio ar arolygiadau yn y dyfodol.  Roedd yr angen i ganiatáu cyfle i ysgolion roi adborth yn thema allweddol arall.  Yn ogystal, roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r wybodaeth a gesglir gael ei choladu a'i rhannu ar lefel genedlaethol, a'i defnyddio i lywio hyfforddiant a pholisi.  Roedd yr angen am ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid yn neges gref arall.  Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr ei bod hi'n bwysig bod AEM yn wybodus ynghylch y cwricwlwm newydd a bod angen hyfforddiant i sicrhau hyn.

Neges allweddol gan lywodraethwyr oedd bod rhaid i agweddau AEM fod yn gadarnhaol yn ystod ymweliadau. Fodd bynnag, mynegodd rhai llywodraethwyr a rhieni bryderon y byddai symud tuag at rôl fwy cefnogol yn gwneud ein cylch gwaith yn aneglur, gan ddadlau mai rôl ALlau a chonsortia rhanbarthol yw cefnogi ysgolion. Roedd yr ymatebion gan rieni ynghylch yr angen am ymweliadau ymgysylltu yn gymysg, gyda rhai'n dadlau bod angen rhoi llonydd i ysgolion ac eraill yn awgrymu ymweliadau mwy cyson.

## 4.3 Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn bontio

Yn y cwestiwn nesaf, gofynnom i ymatebwyr pa fath o weithgareddau y dylem fod yn eu cynnal yn ystod y flwyddyn bontio, o blith rhestr o 5 opsiwn. Nododd llawer o ymatebwyr fod cynnal digwyddiadau hyfforddi i gynorthwyo â diwygio'r cwricwlwm mewn partneriaeth â rhanbarthau ac awdurdodau lleol yn bwysig iawn. Teimlai mwyafrif ei bod hi'n bwysig iawn casglu a chyhoeddi astudiaethau achos arfer dda ar y modd y mae ysgolion wedi gwella. Hefyd, nododd mwyafrif fod cyfrannu at gynadleddau cenedlaethol er mwyn i ysgolion rannu arfer dda a ffyrdd i wella yn bwysig iawn. Roedd 57% o'r farn y dylem roi cymorth drwy ymweliadau â gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol a rhai awdurdodau lleol. Yn olaf, roedd lleiafrif o'r farn bod cynnal ein harolygiadau thematig er mwyn cynorthwyo â diwygio addysg yn bwysig iawn.

**Ffigur 5: Pa fath o weithgareddau sy'n bwysig i ni eu cyflawni yn ystod y flwyddyn bontio yn eich barn chi?**



## 4.4 Annog ysgolion ac UCDau i gymryd eu camau nesaf o ran y cwricwlwm newydd

Yn y cwestiwn nesaf, gofynnom i ymatebwyr sut y gallem annog ysgolion ac UCDau i gymryd eu camau nesaf o ran y cwricwlwm newydd. Neges allweddol gan weithwyr addysg proffesiynol oedd y dylem weithio gydag ysgolion i'w cynorthwyo a'u symbylu, gydag ymagwedd gydweithredol, a meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth. Fe wnaethant nodi bod angen deialog agored, onest a phroffesiynol. Fodd bynnag, fe wnaeth gweithwyr addysg proffesiynol eraill ddadlau y dylem roi amser a llonydd i'r ysgolion hyn roi newidiadau ar waith a mentro. Neges allweddol arall oedd y dylem roi cyngor i ysgolion ac UCDau, gan nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Awgrymodd nifer o ymatebwyr neilltuo AEM i ysgol uwchradd ac ysgolion cynradd bwydo am flwyddyn i gefnogi staff. Ychwanegodd yr ymatebwyr hyn y byddai angen hyfforddiant ar yr AEM hyn ar y cwricwlwm newydd. Roedd rhannu astudiaethau achos arfer effeithiol, gan gynnwys rhai o Ysgolion Arloesi, yn neges gref iawn o ran sut y gallem gefnogi ysgolion o'r fath, ynghyd â rhannu'r wybodaeth gydag ALlau a chonsortia rhanbarthol i lywio hyfforddiant. Mynegodd llawer o weithwyr addysg broffesiynol yr angen i ni roi negeseuon a chyngor clir ynghylch pwrpas y cwricwlwm newydd. Hefyd, nododd llawer bwysigrwydd arolygiadau thematig, yn enwedig y rhai a oedd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Fe wnaeth rhai ymatebwyr ddadlau nad ein rôl ni yw cefnogi ysgolion, gan fod sefydliadau haen ganol eraill, fel y consortia rhanbarthol, eisoes yn gwneud hyn.

Neges allweddol a gafodd ei hadleisio gan rieni/gofalwyr a llywodraethwyr oedd yr angen i ni rannu astudiaethau achos arfer effeithiol, gan gynnwys rhannu syniadau ac adnoddau gan ysgolion eraill, yn ogystal â darparu hyfforddiant. Fe wnaeth ymatebwyr eraill nodi y dylem roi amser i'r ysgolion a'r UCDau hyn roi newidiadau ar waith, ond y dylem fod ar gael hefyd i roi cyngor.

## 4.5 Gweithgareddau eraill i'w cynnal yn ystod y flwyddyn bontio


Gofynnom p'un a oedd gan ymatebwyr unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gweithgareddau y mae'n bwysig i ni eu cynnal yn ystod y flwyddyn bontio. Y neges gryfaf gan weithwyr addysg proffesiynol oedd yr angen am sicrhau cysondeb ymhlith AEM, gan gynnwys drwy hyfforddiant. Roedd anfon AEM ar secondiad i addysgu mewn ysgolion yn awgrym amlwg arall, ac yn yr un modd llunio adnoddau enghreifftiol i staff. Roedd treulio amser yn dysgu gan Ysgolion Arloesi ac ysgolion rhagorol yn awgrym cyson ac awgrymiadau eraill oedd cynnal trafodaethau clwstwr a chyfarfodydd cydweithredu i ysgolion a oedd yn gweithio gyda'i gilydd. Roedd adroddiadau thematig, ar ddiwygio'r cwricwlwm yn benodol, yn thema arall, fel yr oedd ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.

Hefyd, awgrymodd ymatebwyr eraill anfon AEM ar secondiad i ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Fe wnaeth llywodraethwyr nodi y dylem roi gwybod i randdeiliaid am newyddion a chynnydd, ac awgrymodd rhieni/gofalwyr gynnal nosweithiau ymgysylltu â rhieni ac ymweliadau blynyddol ag ysgolion.

## 4.6 Cymorth i ysgolion/UCDau sy'n destun pryder

Nododd y cwestiwn canlynol y byddwn, yn unol â'n trefniadau cyfredol, yn parhau i gynllunio ymweliadau ag ysgolion sy'n peri pryder yn ystod 2020–21. Gofynnwyd i ymatebwyr osod, yn ôl eu trefn, pa mor bwysig oedd dewis o dri gweithgaredd i'n helpu i gefnogi'r ysgolion hyn. Fe wnaeth dros 80% o ymatebwyr nodi bod cymorth i wella addysgu yn bwysig iawn, nododd 63% fod digwyddiadau astudiaethau achos i rannu arfer dda yn bwysig iawn a nododd 48% fod cynadleddau i siarad am gymorth gwella i ddatblygu cynlluniau gwella yn bwysig iawn.

**Ffigur 6: Yn unol â'n trefniadau cyfredol, byddwn yn parhau i gynllunio ymweliadau ag ysgolion sy'n peri pryder yn ystod 2020-21.  Yn ychwanegol, pa mor bwysig yw'r gweithgareddau pellach a nodir isod i'n helpu i gefnogi'r ysgolion hyn?**





Yna, gofynnwyd p'un a oedd gan ymatebwyr unrhyw awgrymiadau eraill o ran y modd y gellir gwella cymorth i ysgolion sy'n destun pryder.  Neges allweddol gan weithwyr addysg proffesiynol oedd y dylai consortia rhanbarthol wneud hyn ac y dylem osgoi dyblygu'r hyn a wnânt.  Fodd bynnag, awgrymodd gweithwyr addysg proffesiynol eraill y dylem gydweithredu ag ALlau, consortia rhanbarthol ac Ymgynghorwyr Her.  Roedd yr angen i gefnogi arweinyddiaeth yn neges allweddol arall, yn benodol ar ffurf hyfforddiant, ac yn yr un modd mentora staff gan fentoriaid hyfforddedig.  Neges gyson oedd y dylid rhoi amser i ysgolion gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd gydag ymweliadau llai cyson gennym ni.  Hefyd, y dylem annog ysgolion i weithio gydag ysgolion eraill o gefndir tebyg neu gydag ysgolion mwy llwyddiannus.  Roedd ymweliadau cyson gan arolygydd gwella ysgol i archwilio cynnydd yn awgrym mynych arall, ynghyd â gosod arolygydd mewn ysgol am dymor.

Awgrymodd rhieni/gofalwyr y dylem ymweld ag ysgolion yn amlach.  Fe wnaeth aelodau o'r cyhoedd nodi y dylem sicrhau bod consortia rhanbarthol yn darparu cymorth priodol ac yn trefnu digwyddiadau i'r holl staff, nid dim ond yr arweinwyr.  Awgrymodd dysgwyr fod ysgolion eraill yn ymweld ag ysgolion sy'n peri pryder ac y dylem weithio gyda'r consortia rhanbarthol.  Awgrymodd ymatebwyr eraill hyfforddiant i arweinwyr a chymorth ar gyfer gwella addysgu.

## 4.7 Dull cyfathrebu o ddewis er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn bontio

Gofynnodd y cwestiwn olaf i ymatebwyr am eu dulliau cyfathrebu o ddewis er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn bontio, o blith dewis o chwe opsiwn.  Dewisodd dros hanner ohonynt wefan ac e-lythyrau Estyn fel eu dull o ddewis, dewisodd 44% ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, dewisodd 36% y cyfryngau cymdeithasol, dewisodd 19% fideo a dewisodd 9% flog.

**Ffigur 7: Sut byddech chi'n dymuno i ni rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn bontio?**




Yn olaf, gofynnwyd p'un a oedd gan ymatebwyr unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer sut i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid. Roedd gan weithwyr addysg proffesiynol lawer o awgrymiadau ar gyfer sianeli cyfathrebu posibl. Roedd y rhain yn cynnwys negeseuon e-bost yn uniongyrchol oddi wrth Estyn i arweinwyr ysgol, rhoi diweddariadau i ysgolion drwy'r uwch dîm arwain, anfon llythyron at benaethiaid yn annerch yr holl staff a chyfathrebu'n rheolaidd â rhieni drwy anfon llythyron gartref. Roedd dyddiadur/trosolwg blynyddol o ddigwyddiadau, wedi'i anfon drwy'r e-bost at ysgolion, i'w galluogi i flaengynllunio yn awgrym arall, ac yn yr un modd bod staff yn gwylio fideo o'r newyddion diweddaraf yng nghyfarfod y staff. Roedd ap newyddion Estyn yn awgrym arall, gydag isadrannau ar gyfer sectorau penodol. Roedd neilltuo AEM cyswllt i bob ALl i fynychu cyfarfodydd cymdeithasau penaethiaid a chynorthwyo penaethiaid ar ffurf debyg i hyfforddiant diweddaru yn sylw arall. Awgrym arall oedd i Ymgynghorwyr Her gyfleu negeseuon. Roedd syniadau eraill yn cynnwys cylchlythyron, cyfarfodydd cenedlaethol a rhanbarthol i sicrhau negeseuon cyson, cyfraniadau at gynadleddau cenedlaethol a digwyddiadau rhanbarthol, digwyddiadau hyfforddi lleol a sioe deithiol. Fe wnaeth gweithwyr addysg proffesiynol nodi bod angen cysylltu â rhanddeiliaid yn aml, a thrwy ddefnyddio dulliau gwahanol, er mwyn cael y gweithlu cyfan i dalu sylw a herio unrhyw ragdybiaethau am ein rôl.

Awgrymodd llywodraethwyr fod atodiadau penodol i bwnc yn cael eu cynnwys gyda chylchlythyron pan fyddai gwybodaeth ar gael. Awgrymodd ymatebwyr eraill y teledu, radio a gweminarau. Awgrymodd rhieni ein bod yn ymgysylltu â rhieni.

## 5 Y camau nesaf

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn helpu i lywio'n gweithgareddau yn ystod y flwyddyn bontio arfaethedig. Byddwn yn lansio ail ymgynghoriad cyhoeddus, cenedlaethol am drefniadau arolygu yn y dyfodol yn ystod tymor yr hydref 2019.